# Proffil Sgiliau Digidol Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

### Pa sgiliau digidol ydych chi'n eu defnyddio'n aml?

Creadigrwydd digidol – "Rwy'n eitha medrus mewn Photoshop, meddalwedd golygu, meddalwedd golygu ffilm a fideo a meddalwedd sgriptio fel Trelby".

Llythrennedd data a hyfedredd digidol – "Defnyddies i Excel i gasglu a chyflwyno data o sioe dalent ac yna cyfri'r data. Rwy'n teimlo'n hyderus mewn sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol ac mae'n well gen i Gwglo unrhyw broblemau yn gynta cyn troi at arbenigwr Technoleg Gwybodaeth felly datrys problemau digidol hefyd".

Llythrennedd gwybodaeth – "Dysges i sut i Gwglo pethau'n effeithlon trwy ddefnyddio geiriau allweddol".

Ôl troed digidol – "Rwy'n ceisio bod yn ymwybodol o fy ôl troed digidol a pheidio â rhoi gormod o wybodaeth i Google, rwy'n ymfalchïo cyn lleied o wybodaeth sydd gan Google amdana i! Dwi ddim yn defnyddio TikTok chwaith oherwydd pryderon diogelwch".

### Ble wnaethoch chi ddysgu'r sgiliau digidol hyn?

"Dysges i'n bennaf am yr holl wahanol feddalwedd creu digidol yn y brifysgol a defnyddies i fy nisgownt myfyriwr i gael pethau fel Adobe Cloud. Dysges i sut i ddefnyddio cryn dipyn o raglenni drwy jyst chwarae o gwmpas a gwylio ambell i diwtorial".

### Oes unrhyw sgiliau digidol yr hoffech fod wedi'u dysgu cyn ichi raddio?

"Mewn byd delfrydol byddai'n wych gwybod sut i gymryd rheolaeth lawn o'ch ôl troed digidol ond galla i werthfawrogi nad yw hyn yn bosibl mewn gwirionedd. Ond efallai y byddai'n syniad da cael rhaglenni gorfodol ar gyfer diogelwch a phreifatrwydd ar-lein a sut gall y pethau rydych chi'n eu dweud ar-lein gael eu defnyddio yn y dyfodol".

### Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?

"2022"

### Beth fuoch chi'n ei astudio?

"Gwneud ffilmiau"

### Beth ydych chi'n ei wneud yn broffesiynol ers graddio?

"Dwi wedi bod yn creu portffolio o fy ngwaith, diweddaru fy CV, gwneud cardiau busnes, cael trwydded yrru a gwneud gwaith gwirfoddol fel helpu gyda ffotograffiaeth digwyddiadau".



# Korneliusz Smalec